| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 IONAWR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO –YATES'S GLANRAFON, BANGOR LL57 1 LP** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydde deiddo o'r newydd ar gyfer Yates's , Glanrafon, Bangor LL57 1LP gan ddeilwyr y drwydded , sef Stonegate Pub Company Limited o Porter Tun House, 500 Capability Green Luton LU1 3LJ
Gwneir y cais er mwyn ceisio am wyriad o oriau agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedig; ac er pwrpas diddymu amodau nad ydynt bellach yn addas neu oherwydd eu bod yn rhy gaeth.

Gofynnir am agor yr eiddo i'r Cyhoedd am 9:00 y bore , saith diwrnod yr wythnos. Yn bresennol, mae'r eiddo yn agor i'r Cyhoedd am 10:00 o Ddydd Llun i ddydd Sadwrn; ac am 11:00 fore Sul. Nodir yn y cais y bydd yr oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cadw yn unol â'r drwydded gyfredol.
Mae'r ymgeisydd yn cynnwys manylion o'r amodau hynny sydd angen eu newid/dileu, a'r rhesymau dros y newidiadau ar dudalen 8 o'r ffurflen gais.
Mae rhai o'r newidiadau a argymhellir , er enghraifft dileu'r amod nad yw diodydd i'w gweini mewn cynhwysyddion gwydr arôl 19:00; wedi eu trafod gyda'r Heddlu.

## YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Cyngor Dinas Bangor | e bost- gwrthwynebu |
| Heddlu | e bost - dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr – dim gwrthwynebiad |

### Gwrthwynebiad – Cyngor Dinas Bangor

Mae gwrthwynebiad aelodau Cyngor Dinas Bangor yn cael ei wneud ar sail yr amcanion trwyddedu o –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu'r Cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig mewn llecyn sensitif ger y Gadeirlan ac yn agos i eiddo preswyl. Datganir pryder y byddai caniatáu dileu'r amodau mewn perthynas â gwahardd y defnydd o wydrar ôl 19:00 yn arwain at beryglu'r Cyhoedd. Mae tystiolaeth wedi bod yn y gorffennol o wydr a photeli wedi eu taflu dros y clawdd i ardd y Gadeirlan. Mae aelodau'r Cyngor Dinas hefyd yn bryderus y bydd newid yr amodau parthed Goruchwylwyr Drysau yn arwain at ddiffyg rheolaeth ar gwsmeriaid a all arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.